Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru
## Papur briffio

Gorffennaf 2021



ymchwil.senedd.cymru/

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7270**
E-bost: **Aoife.Mahon@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru
## Papur briffio

Gorffennaf 2021

**Awduron:**
Thomas Mitcham and Aoife Mahon

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Coetiroedd Cymru ........ 2**

Graddau gofodol ........ 2

Cymeriad a math ........ 2

Perchnogaeth ........ 3

Rheoli ........ 3

Plannu ac ailstocio ........ 4

Clefydau ........ 6

**3. Gwasanaethau ecosystem coetir ........ 10**

Y sector coedwigaeth masnachol ........ 10

Dal a storio carbon ac ansawdd aer ........ 11

Hamdden ac iechyd ........ 12

Bioamrywiaeth ........ 13

**4. Cyd-destun polisi ......15**

Y Strategaeth Coetiroedd i Gymru ...... 15

Cynllun cyflawni carbon isel ...... 15

Coedwig Genedlaethol ...... 16

Polisïau eraill ...... 18

Ariannu coetiroedd ...... 19

Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd ...... 20

**5. Ffynonellau allweddol ......21**

# 1. Cyflwyniad

Coetiroedd yw **14.9%** o arwynebedd tir Cymru. Maent yn darparu amrywiaeth o fuddion posibl a **gwasanaethau ecosystem**, gan gynnwys cynhyrchu pren, hybu twristiaeth, cefnogi bioamrywiaeth, gwella ansawdd aer, creu swyddi, tynnu carbon o'r atmosffer, a gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Mae'r brîff ymchwil hwn yn archwilio cyflwr presennol coetiroedd Cymru, pwy sy'n berchen arnynt, pwy sy'n eu rheoli a sut maent yn newid. Mae'n rhoi trosolwg o'r gwasanaethau ecosystem y mae coetiroedd yn eu darparu ac yn nodi eu gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol posibl. Daw i ben drwy nodi'r cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a'i pholisïau, gyda'r nod o arwain dyfodol coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru.

# 2. Coetiroedd Cymru

## Graddau gofodol

Diffiniad coetir, yn ôl ystadegau'r **Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol**, yw tir o dan goed gydag o leiaf **20%** o orchudd canopi (neu gyda'r potensial i gyflawni hynny), ac sy'n gorchuddio ardal sy'n fwy na 0.5 hectar. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys ardaloedd â choed a gwympwyd sy'n aros am ailstocio a llennyrch ag arwynebedd llai na 0.5 hectar.

Roedd yna **309,000 hectar** o goetir yng Nghymru ym mis Mawrth 2020 (14.9 y cant o gyfanswm arwynebedd y tir). Mae hyn yn cymharu â 10.1 y cant yn Lloegr, 18.8 y cant yn yr Alban ac 8.6 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Y cyfartaledd Ewropeaidd yw 46 y cant (neu 39.8 y cant yn yr Undeb Ewropeaidd).

Mae llawer o goetiroedd Cymru ar dir amaethyddol. Yn 2019, roedd **109,000 hectar** o goetir fferm yng Nghymru, sef ychydig dros draean cyfanswm arwynebedd y coetir.

Roedd **92,700 hectar** arall o goed a oedd y tu allan i goetiroedd diffiniedig yng Nghymru, ym mis Ionawr 2016. Mae'r gorchudd coed hwn ar ffurf gwrychoedd, coedwigoedd bach, neu goed unigol, ac mae'n bennaf ar dir amaethyddol, mewn ardaloedd trefol, neu ar hyd ffyrdd a rheilffyrdd. I gyd, roedd y coed a'r coetir diffinedig hyn yn gorchuddio tua 19.4 y cant o arwynebedd tir Cymru.

O ran gorchudd canopi coed trefol, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru mai'r cyfartaledd (cymedrig) yng Nghymru oedd **16.3%**, neu 14,097 hectar yn 2013. Lleihaodd hyn o 17.0 y cant yn 2009. Mae gofod agored cyhoeddus yn cyfrif am 53 y cant o orchudd coed trefol, er ei fod yn gorchuddio 22 y cant o dir trefol. Mae ardaloedd â llawer o dai, sydd yn aml yn fannau â lefel uchel o amddifadedd, yn cynnwys 1 y cant o orchudd coed trefol Cymru. Rhwng 2009 a 2013, fe wnaeth **72%** o drefi Cymru golli gorchudd coed - colli cyfanswm o 539 hectar o ganopi trefol ledled Cymru - a chollwyd **7,000** o goed mawr o drefi a dinasoedd rhwng 2006 a 2013.

## Cymeriad a math

Mae coed yn cael eu dosbarthu fel conwydd (pren meddal), neu goed llydanddail (pren caled). Ym mis Mawrth 2020, y rhaniad oedd **152,000 hectar** (49 y cant) o goetir conwydd a 158,000 hectar (51 y cant) o goetir llydanddail yng Nghymru.

Mae coetir sydd wedi bodoli'n barhaus ers 1600 yn cael ei ystyried yn 'hynafol'. Yn ôl yr **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ar gyfer Cymru** (SoNaRR), a gyhoeddwyd gyntaf gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2016, gellir disgrifio 94,940 hectar o goetir Cymru fel coed hynafol. Mae hyn yn cynnwys:

- 41,760 hectar o goetir lled-naturiol hynafol, lle mae'r coed a'r llwyni yn frodorol i'r safle ac nad ydyn nhw wedi'u plannu yn amlwg;
- 25,750 hectar o blanhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol, lle mae safleoedd hynafol wedi'u hailblannu, yn aml gyda chonwydd anfrodorol; a
- 21,960 hectar o goetiroedd hynafol wedi'u hadfer, sef planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol sydd yn y broses o gael eu hadfer gyda rhywogaethau brodorol yn bennaf.

Mae 5,440 hectar arall yn safleoedd coetir hynafol categori anhysbys.

Nid yw'r 211,060 hectar o goetir Cymru sy'n weddill yn hynafol, ac mae **159,055 hectar** o'r rhain yn goetiroedd anfrodorol, anhynafol (lle mae mwy na 50 y cant o orchudd canopi yn dod o rywogaethau anfrodorol) a 52,005 hectar yn goetiroedd brodorol, anhynafol.

## Perchnogaeth

Mae **Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru**, a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn gorchuddio 126,000 hectar, neu tua 40 y cant o gyfanswm arwynebedd coetir Cymru. Mae'r coetir sy'n weddill yn eiddo preifat.

Mae **ystadegau Forest Research** yn nodi mai dim ond 117,000 hectar o goetiroedd Cymru sy'n cael eu rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ond dim ond tir a reolwyd yn flaenorol gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru y mae'r ffigur hwn yn ei gynnwys. Nid yw tir a reolir gan y cyrff etifeddiaeth eraill a ffurfiodd Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) wedi'i gynnwys.

Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar tua **dwy ran o dair** o'r coetir conwydd yng Nghymru. Mae'r holl goetir llydanddail, bron â bod, yn eiddo preifat.

## Rheoli

Diffiniad rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn ôl **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yw 'defnyddio adnoddau naturiol mewn modd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt'.

Rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru gymhwyso'r egwyddor hon wrth gyflawni ei swyddogaethau. **Safon Coedwigaeth y DU** (UKFS) sy'n gosod y gofynion cyfreithiol ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Rhaid i reolwyr tir fodloni Safon Coedwigaeth y DU i gael grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Dangosodd yr **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020** yr amcangyfrifwyd bod arwynebedd o 145,000 hectar wedi'i rheoli i'r UKFS yn 2019. Mae hyn yn cymharu â **203,000 hectar** yn 2014. Yn ôl yr Adroddiad, y rheswm am y duedd ar i lawr ymddangosiadol hon oedd bod cynllun **Rheoli Coetir Glastir** Llywodraeth Cymru wedi dod i ben yn 2016. Fodd bynnag, mae tuedd ar i fyny yn gyffredinol ers 2001, ac mae **Ystâd Coetir cyfan Llywodraeth Cymru** yn bodloni Safon Coedwigaeth y DU. Nid yw'r mwyafrif o goetiroedd dan berchnogaeth breifat yn cael eu hasesu yn erbyn y safonau hyn.

Gall coetir hefyd gael ei ardystio ar ôl cael ei archwilio'n annibynnol yn erbyn **Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig** (UKWAS). Mae hyn yn rhoi hyder i brynwyr bod unrhyw gynhyrchion a brynir yn dod o goetir a reolir yn gynaliadwy. Ym mis Mawrth 2020, roedd **47%** o goetir Cymru wedi'i ardystio gan y Safon Sicr, gan gynnwys Ystâd Coetir cyfan Llywodraeth Cymru. Dim ond 29,000 hectar o goetir y sector preifat sydd wedi'i ardystio gan y Safon Sicr. Nid yw diffyg ardystiad o reidrwydd yn dynodi coetir o ansawdd isel; gall y broses ardystio fod yn gostus, a gall fod yn werth chweil i goetir masnachol yn unig.

Mae gan tua **5%** o'r coetiroedd yng Nghymru statws cadwraeth dynodedig. O fewn hynny, mae 39 y cant ohonynt yn safleoedd sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn sgil y rhywogaethau planhigion neu anifeiliaid pwysig y maent yn eu cynnal. Dangosodd yr asesiadau diweddaraf o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig coetiroedd yng Nghymru fod **74%** o'r rhywogaethau neu'r cynefinoedd sy'n gyfrifol am ddynodiad yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn cael eu hystyried i fod mewn cyflwr "anffafriol", wedi'u hasesu ar ffactorau fel iechyd coed a nifer y rhywogaethau planhigion ymledol.

## Plannu ac ailstocio


Mae plannu yn cyfeirio at greu coetir newydd, naill ai trwy gytrefu coed yn naturiol ar dir yn agos at goetir presennol neu blannu bwriadol. Ailstocio yw rhoi coed newydd mewn coetir a gwympwyd, gan gynnwys aildyfiant naturiol ac ailblannu bwriadol.

Dim ond **88,000 hectar** o goetir oedd yng Nghymru ym 1905. Erbyn 1965, roedd hyn wedi cynyddu i 201,000 hectar, ac erbyn 1998, roedd 299,000 hectar o goetir.

Mae cyfradd y gwaith plannu newydd wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawdau diwethaf. Mae'r **cyfraddau plannu ac ailstocio rhwng 1971 a 2020** i'w gweld yn Ffigur 1. Y gyfradd blannu ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod rhwng 1971 a 2020 yw 950 hectar y flwyddyn. Yn **Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010)**, gosodwyd targed i blannu 100,000 hectar o goetir newydd rhwng 2010 a 2030, sef cyfradd o 5,000 hectar y flwyddyn. Fodd bynnag, dros y degawd diwethaf (2010 i 2020), gostyngodd y gyfradd blannu ar gyfartaledd i 420 hectar y flwyddyn. Yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2020, plannwyd dim ond **80 hectar** o goetir newydd yng Nghymru (40 hectar o goetir llydanddail a 40 hectar conwydd). Mae hyn yn **cymharu** â 200 hectar o blannu newydd yng Ngogledd Iwerddon, 2,330 hectar yn Lloegr a 10,860 hectar yn yr Alban.

Mae cyfraddau ailstocio wedi aros yn gyson yn ystod y cyfnod. Y gyfradd ailstocio ar gyfartaledd rhwng 1971 a 2020 oedd 1,880 hectar y flwyddyn, a'r gyfartaledd dros y degawd diwethaf oedd 1,880 hectar y flwyddyn hefyd. Yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2020, cafodd 1,500 hectar o goetir ei ailstocio.

**Ffigur 1: Plannu ac ailstocio coetir Cymru rhwng 1971 a 2020.**




Ffynhonnell: **Forest Research**


O'r coetir a blannwyd o'r newydd rhwng 2015 a 2019, roedd 89 y cant ohono'n llydanddail. Yn yr un cyfnod, roedd yr ailstocio wedi'i rannu'n fwy cyfartal, gyda chonwydd yn cyfrif am 55 y cant o'r ardal a ailstociwyd.

Ym mis Mehefin 2021, **cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd** y byddai Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn **arwain ymarfer** er mwyn nodi'r rhwystrau i blannu coed yng Nghymru, gyda'r bwriad o nodi cynigion i'w goresgyn. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, dywedodd Anthony Geddes, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Confor:

> I'm pleased to see a fresh approach at Welsh Government level, which puts climate change at the heart of policy making - and positive initial signs of an understanding that forestry and wood must be a key component of tackling the impacts of climate change.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tasglu a sefydlwyd i adolygu plannu coed ym mis Mehefin 2021, gan ddod â chynrychiolwyr o **11 o grwpiau a sefydliadau gwahanol** ynghyd. Yn dilyn wythnos gyntaf y cyfarfodydd, **dywedodd** y Dirprwy Weinidog ei fod wedi cael ei daro gan faint o gonsenws sydd ar y mater hwn yng Nghymru.

**Ffigur 2: Coedwigaeth a choetir yng Nghymru – ystadegau allweddol.**




## Clefydau

Mae coed yng Nghymru dan fygythiad gan **sawl clefyd**. Ar hyn o bryd, y rhai mwyaf difrifol yw:

- **clefyd coen ynn** (a achosir gan y ffwng Hymenoscyphus fraxineus, a elwid gynt Chalara fraxinea); a
- **Phytophthora ramorum** (P. Ramorum) sy'n effeithio'n bennaf ar goed llarwydd.

## Clefyd coed ynn

Cafodd clefyd coed ynn **ei gofnodi am y tro cyntaf yn y DU** ym mis Chwefror 2012, pan ganfuwyd bod llwyth o goed a fewnforiwyd i Loegr o'r Iseldiroedd wedi cael ei effeithio, er y credir bellach y gallai'r afiechyd fod yn bresennol **cyn 2006**. Canfuwyd **yr achos cyntaf yng Nghymru** ym mis Tachwedd 2012.

Mae clefyd coed ynn yn achosi briwiau rhisgl, corun yn gwywo a cholli dail, ac fel arfer mae'n angheuol. Mae'n fwyaf niweidiol i ynn cyffredin (Fraxinus excelsior), ond gall hefyd effeithio ar ynn dail cul (Fraxinus angustifolia). Mae amcangyfrifon yn awgrymu y gallai clefyd coed ynn ladd dros **95%** o'r coed ynn ym Mhrydain Fawr.

Roedd tua **19,000 hectar** o goetir ynn yng Nghymru ym mis Mawrth 2019. Mae hyn yn 6 y cant o goetir Cymru yn ôl arwynebedd a 26 y cant o'r holl goed llydanddail. Ym mis Hydref 2019, roedd wedi **lledaenu'n fwy eang** yng Nghymru nag yng nghenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig. Mae Defra wedi creu **map rhyngweithiol** o achosion clefyd coed ynn ledled y DU.

Rhoddwyd **Gorchymyn Iechyd Planhigion** ar waith ym mis Hydref 2012 a oedd yn gwahardd symud hadau, planhigion a choed ynn i Brydain ac o fewn Prydain Fawr. Ers mis Ionawr 2020, **gellir mewnforio coed ynn o'r Undeb Ewropeaidd** a'u symud o fewn Prydain Fawr o dan **Reoliadau Iechyd Planhigion** newydd. Gwaherddir masnachu ynn o drydydd gwledydd o hyd.

Cyhoeddodd **Grŵp Llywio Iechyd Coed Cymru** ei **gynllun gweithredu ar glefyd coed ynn** ym mis Tachwedd 2016. Mae'n nodi na ddylid plannu unrhyw rywogaeth ynn yng Nghymru ac y dylid defnyddio rhywogaethau llydanddail eraill. Mae hefyd yn nodi na ddylid cwympo coed fel mater o drefn, ond eu rheoli er diogelwch y cyhoedd.

Ar ôl cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar glefyd coed ynn, rhoddodd Confor **dystiolaeth ysgrifenedig** i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd, gan nodi'r hyn a ganlyn:

> On Ash dieback, (Chalara), we believe WG has been proactive, we recognise that the ability to react to it is very limited by any organisation, public or private […] Chalara is found in most areas of Wales now so the ability to control the disease is sadly long gone. However if we look at this as a case for how we could prevent disease in the first place we can learn lessons.

Cafodd Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, sef cynllun buddsoddi cyfalaf gwerth £1.55 miliwn i helpu i gynyddu capasiti yn y sector coedwigaeth, **ei agor ar gyfer ceisiadau rhwng mis Awst a mis Hydref 2020**. Roedd cefnogaeth benodol ar gael ar gyfer gwneud gwaith diogelwch ar goed yr oedd clefyd coed ynn yn effeithio arnynt.

### Clefyd llarwydd

Roedd P. ramorum **yn bresennol ym mhob gwlad yn y DU** erbyn 2010, ond mae'n fwyaf cyffredin yn ne Cymru a de-orllewin Lloegr. Mae'r afiechyd yn effeithio'n bennaf ar rywogaethau llarwydd (Larix), yn enwedig llarwydd Japan (Larix kaempferi), ac mae ei symptomau nodweddiadol yn y rhywogaethau hyn yn cynnwys afliwiad dail, canghennau'n marw a briwiau rhisgl. Nid oes triniaeth ar gael ar gyfer haint P. ramorum.

Cyfanswm arwynebedd llarwydd yng Nghymru oedd **tua 23,105 hectar,** neu 15 y cant o'r holl goetir conwydd, yn 2019, ac mae mwy nag **20%** o goetiroedd llarwydd Cymru wedi'u heintio â P. ramorum. Ni ddefnyddir llarwydd mwyach ar gyfer ailstocio ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru.

Yn 2017, **dywedodd Confor**:

> We do believe that NRW has dragged its feet on the clearance of diseased larch, whilst recognising their difficulties in the early years of the disease we continue to call for them to push forward with the disease management.

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei **strategaeth** wedi'i diweddaru ar gyfer rheoli P. ramorum ym mis Mai 2019. Mae'n diffinio dau Barth Craidd y Clefyd a Pharth Cyfyngu'r Clefyd, gyda strategaethau wedi'u targedu er mwyn rheoli lledaeniad y clefyd. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru'r pŵer hefyd i roi **Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol** sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion coetiroedd gwympo coed llarwydd sydd wedi'u heintio. Mae Atodiad C y ddogfen strategaeth yn cynnwys map o'r holl Hysbysiadau a gyhoeddwyd yng Nghymru ym mis Chwefror 2019. Rhwng 2010 a 2019, rhoddwyd Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol yng Nghymru ar gyfer **dros 12,000 hectar** i gyd.

Er mwyn gwella gwytnwch coetiroedd i blâu a chlefydau yn y dyfodol, **nod** Llywodraeth Cymru yw ailstocio ardaloedd a gwympwyd oherwydd clefyd llarwydd gyda chymysgedd mwy amrywiol o rywogaethau. **Dywedodd** llefarydd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yr hyn a ganlyn:

> Mae clefyd y llarwydd wedi cael effaith ddramatig ar ein coedwigoedd yng Nghymru. Mae'n anffodus ein bod yn gorfod cwympo coed, ond mae hynny'n rhoi cyfle inni wella'r goedwig ar gyfer y dyfodol.

# 3. Gwasanaethau ecosystem coetir

Gwasanaethau ecosystem yw buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol yr amgylchedd naturiol i lesiant dynol. Yn y strategaeth **Coetiroedd i Gymru**, caiff y rhain eu dosbarthu fel a ganlyn:

- gwasanaethau cyflenwi (fel cynhyrchu pren);
- gwasanaethau rheoleiddio (fel dal a storio carbon a gwella ansawdd aer);
- gwasanaethau diwylliannol (fel manteision sy'n gysylltiedig â hamdden ac iechyd); a
- gwasanaethau cynnal (fel gwella bioamrywiaeth).

Defnyddiodd Forest Research **fethodolegau cyfrifo cyfalaf naturiol** a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Defra i **amcangyfrif gwerth adnoddau coetir Cymru** mewn pedwar maes penodol: echdynnu pren, dal a storio carbon, hamdden ac ansawdd yr aer. Canfu mai cyfanswm gwerth blynyddol y gwasanaethau hyn a ddarperir gan goetiroedd Cymru oedd ychydig dros £600 miliwn yn 2015. Mae Tabl 1 yn dangos sut mae hyn wedi'i rannu rhwng y pedwar gwasanaeth gwahanol.

**Tabl 1: Gwerth blynyddol y gwasanaethau a ddarperir gan goetiroedd Cymru yn 2015.**

| Gwasanaeth ecosystem | Echdynnu pren | Dal a storio carbon | Hamdden | Ansawdd yr aer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth (£ miliwn)** | 28.3 | 108 | 85 | 385 | 606.3 |

Ffynhonnell: **Forest Research**

## Y sector coedwigaeth masnachol

Dangosodd **dangosyddion diweddaraf Coetiroedd i Gymru** mai Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y sector coedwigaeth yng Nghymru oedd £665 miliwn yn 2017, gan gynnwys £50 miliwn o dorri coed, £250 miliwn o weithgynhyrchu cynhyrchion pren, a £365 miliwn o weithgynhyrchu papur.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru mai prisiad cyfalaf Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017 oedd **£777.8 miliwn**. Mae hyn yn cynnwys stociau pren a gwerth y tir. Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru yw'r cyflenwr pren ardystiedig mwyaf yng Nghymru, gan gyfrif am oddeutu **60%** o'r gyfran o'r farchnad.

Roedd y sector coedwigaeth yn cyflogi rhwng **10,300 ac 11,000** o bobl yn 2017, yr oedd oddeutu 9,000 ohonynt yn weithwyr cyflogedig a 2,000 yn hunangyflogedig. Yn yr un flwyddyn, roedd 805 o unedau busnes unigol yn y sector. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys busnesau a gefnogir gan goetiroedd, fel y rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden.

Canran y pren meddal o Gymru oedd ar gael a gynaeafwyd yn 2017 oedd **97%** – a oedd o fewn y terfyn blynyddol targed o 77 y cant i 98 y cant. Y cyfartaledd dros y degawd blaenorol oedd 90 y cant, sy'n uwch na'r lefel a ddymunir, sef 86 y cant. Yn 2017, prosesodd melinau llifio Cymru 57 y cant o foncyffion llifio Cymru, er bod y gyfran honno wedi bod yn gostwng ers 2014. Gostyngodd nifer y melinau llifio gweithredol yng Nghymru o 17 yn 2009 i 13 yn 2018.

Mae'r **rhagolygon** yn nodi y gall argaeledd pren meddal yng Nghymru ostwng o gyfaint sefydlog o 2 filiwn o fetrau ciwbig yn 2016 i ddim ond 1.5 miliwn erbyn 2041. Mae'r sector coedwigaeth fasnachol wedi **dweud eu bod yn bryderus iawn** y bydd y cyfraddau plannu ac ailstocio yn lleihau'r cyflenwad o bren masnachol ar gyfer y dyfodol, gan effeithio ar hyfywedd hirdymor y sector yng Nghymru.

## Dal a storio carbon ac ansawdd aer

Amcangyfrifwyd mai'r swm o garbon a ddaliwyd a storiwyd (a gymerwyd i mewn a'i storio) gan goetiroedd Cymru yn 2017-18 oedd **1.84 miliwn tunnell cyfwerth â charbon deuocsid** ($MTCO_2e$) yn flynyddol. Mae'r sector Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF) yn ei gyfanrwydd yn ddalfa garbon net; arweiniodd at **0.77 $MTCO_2e$** yn llai o allyriadau yn 2016. Coetiroedd presennol oedd yn gyfrifol am 67 y cant o'r ddalfa garbon. Arweiniodd coetir a drawsnewidiwyd yn laswelltir at allyriadau o 0.09 $MTCO_2e$, sef 5 y cant o gyfanswm y sector LULUCF.

Mae **Cod Carbon Coetiroedd y DU** yn safon wirfoddol sy'n darparu gwiriad annibynnol o'r carbon a ddaliwyd ac a storiwyd gan brosiectau creu coetir. Yng Nghymru mae **20** prosiect wedi'u dilysu (yn cwmpasu 302 hectar) a 50 yn aros i gael eu dilysu (464 hectar), fel y nodwyd ym mis Mawrth 2020. Yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, bydd y 70 prosiect hyn yn dal ac yn storio cyfanswm o 0.319 $MTCO_2e$ dros gyfnod eu hoes o hyd at 100 mlynedd.

Un o'r llygryddion aer sy'n cael yr effaith fwyaf ar iechyd pobl yw **mater gronynnol, bach** llai na 10 μm o faint ($PM_{10}$). Amcangyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn 2017, fod goetiroedd yn y DU wedi cael gwared ar **269,000 tunnell** o lygredd aer, gan gynnwys 33,900 tunnell o $PM_{10}$ a 17,000 tunnell o $PM_{2.5}$. Yng Nghymru, amcangyfrifwyd mai gwerth gwasanaethau ecosystem i gael gwared ar lygredd gan goetir oedd **£100 miliwn** yn 2017, sy'n cynrychioli 31 y cant o werth blynyddol coetiroedd Cymru.

**Lluniodd Cyfoeth Naturiol Cymru adroddiad** ar dair astudiaeth achos o'r cynllun i-Tree Eco, a oedd â'r nod o feintioli buddion coed trefol a chyfrifo eu gwerth i gymdeithas. Yn yr ardaloedd a astudiwyd (Pen-y-bont ar Ogwr, dalgylch Tawe a Wrecsam), roedd coetir a choed trefol yn tynnu 257 tunnell o lygredd aer bob blwyddyn. Yn astudiaeth achos Wrecsam, tynnwyd 60 tunnell o lygryddion aer, gyda gwerth ariannol amcangyfrifedig o £637,500 bob blwyddyn i'r gymuned.

Tynnodd Coed Cadw **sylw** at waith ymchwil i effaith llystyfiant ar ansawdd aer mewn trefi. Rhybuddiodd y gall rhodfeydd coed stryd waethygu problemau ansawdd aer trwy atal llygryddion rhag gwasgaru. Mewn **adroddiad** gan Gynulliad Llundain Fwyaf, pwysleisiwyd bwysigrwydd dod o hyd i'r 'math cywir' o seilwaith gwyrdd, a'r lle iawn i'w osod, i leihau llygredd aer.

Mae **Strategaeth Coetiroedd i Gymru** Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod buddion 'gwasanaethau rheoleiddio' eraill a ddarperir gan goetiroedd trefol megis lliniaru gwres, risg llifogydd a llygredd sŵn. Mae canopïau coed trefol yn ymyrryd â dŵr glaw ac mae eu systemau gwreiddiau'n darparu system ddraenio. Yn nalgylch Tawe, â chyfanswm arwynebedd o 6,995 hectar, mae coed yn ymyrryd ag amcangyfrif o **252 miliwn litr** o ddŵr bob blwyddyn. Yn seiliedig ar gyfraddau lleol, mae hyn yn arbed £334,000 mewn costau carthffosiaeth ar draws y dalgylch.

## Hamdden ac iechyd

Mewn **arolwg yn 2019**, dywedodd 77 y cant o ymatebwyr yng Nghymru eu bod wedi ymweld â choetiroedd am resymau hamdden yn ystod y 12 mis diwethaf. Cerdded oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd. Dywedodd ymatebwyr a oedd â chyflwr neu salwch tymor hir mai'r diffyg llwybrau addas mewn coetiroedd a gafodd yr effaith fwyaf ar eu hymweliadau (27 y cant). O'r rhai nad oeddent wedi ymweld â choetir, dywedodd 35 y cant mai rhesymau symudedd personol (ac eithrio peidio bod yn berchen ar gar) oedd y prif reswm.

Amcangyfrifir mai gwerth y gwasanaethau hamdden a ddarperir gan goetir yng Nghymru oedd **£85 miliwn** yn 2015. Yn unol ag argymhellion y Swyddfa Ystadegau Gwladol, dim ond gwariant ar deithio i goetiroedd y mae'r ffigur hwn yn ei gynnwys. Mae mesur gwahanol ar gyfer prisio hamdden, sy'n defnyddio'r swm cyfartalog sy'n cael ei wario ar ymweliad â choetir wedi'i luosi â nifer yr ymweliadau, yn nodi gwerth blynyddol o £244 miliwn.

Cynyddodd nifer y grwpiau coetir cymunedol gweithredol o **76 yn 2016 i 95 yn 2019**. Cynyddodd yr arwynebedd tir y mae grwpiau cymunedol yn berchen arno neu yn ei reoli o 1,706 hectar yn 2016 i 5,623 hectar yn 2019.

Mae'r strategaeth **Coetiroedd i Gymru** yn nodi cyfraniad coed at iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae'n nodi'r hyn a ganlyn:

> Mae coetiroedd a choed yn cynhyrchu buddion iechyd pwysig trwy'r gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu a thrwy annog ymarfer corff, adfer y meddwl a rhyngweithio cymdeithasol.

## Bioamrywiaeth

Mae coetiroedd yng Nghymru'n gartref i lawer o blanhigion ac anifeiliaid sydd mewn perygl, fel **gwiwerod coch** a **chlychlysau ymledol**.

Dangosodd yr **Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur 2019**, ar gyfartaledd, bod nifer a dosbarthiad rhywogaethau'r DU wedi dirywio dros y degawdau diwethaf. Nododd bod **17%** o rywogaethau Cymru bellach mewn perygl o ddiflannu. Cafodd diffyg rheolaeth coetir ei gynnwys ymhlith y prif bwysau sy'n achosi colli bywyd gwyllt.


Mae **rhestr interim Adran 7** Llywodraeth Cymru o gynefinoedd o'r pwys mwyaf i fioamrywiaeth yng Nghymru yn cynnwys saith math o gynefin coetir. Mae coetir derw ucheldirol ymhlith y cynefinoedd mwyaf helaeth o'r rhain, gan gwmpasu mwy na **30,000 hectar** yn 2016. O'r 542 o rywogaethau rhestredig o'r pwys mwyaf, mae **210** yn dibynnu'n llwyr neu'n rhannol ar gynefinoedd coetir.

Mae gwytnwch ecosystem yn pennu gallu ecosystemau i ymdopi ag aflonyddwch. Yn **SoNaRR 2020**, asesodd Cyfoeth Naturiol Cymru wytnwch yn erbyn pedwar maen prawf: amrywiaeth, maint, cyflwr a chysylltedd. Canfu fod 'angen gweithredu' i gynyddu gwytnwch y coetir presennol i fygythiadau neu ysgogwyr newid fel llygredd aer, afiechydon a phlâu, rheolaeth amhriodol, a newid yn yr hinsawdd.

Pwysleisiodd yr adroddiad fod coetiroedd yng Nghymru, ac yn enwedig coetir hynafol, yn gartref i fwy o rywogaethau sy'n agored i niwed neu dan fygythiad nag unrhyw gynefin arall. Er yr aseswyd bod gwytnwch ecosystem cyffredinol coetir Cymru yn 'ganolig' yn SoNaRR 2020, dywed bod hyn yn cuddio amrywiad sylweddol. Er bod gan goetir brodorol amrywiaeth ganolig i uchel, er enghraifft, graddiwyd amrywiaeth rhywogaethau coed a llwyni ar lefel isel i ganolig ar gyfer coetir anfrodorol. Mae cwympo llarwydd sydd â chlefyd ar raddfa eang oherwydd yr haint P. ramorum yng Nghymru yn dangos un yn unig o ganlyniadau posibl amrywiaeth annigonol.

Mae coetir yr Iwerydd yng Nghymru, sy'n rhan o brosiect **coedwigoedd glaw Celtaidd** y DU, yn gynefin byd-eang prin. Mae ei gyflwr ar hyn o bryd yn **anffafriol**. Mae'n gynefin arbennig o bwysig i **gen** a **bryoffytau** (mwsoglau a llysiau'r afu). Mae'r **rhestr Adran 7** o rywogaethau â blaenoriaeth yn cynnwys 67 rhywogaeth o gen a 52 rhywogaeth o bryoffyt, ac mae rhai ohonynt i'w cael mewn ychydig o leoliadau yn fyd-eang yn unig. Mae **bygythiadau** i gen a bryoffytau yn cynnwys: rheoli coetir yn wael; rhywogaethau goresgynnol, fel Rhododendron; a llygredd nitrogen atmosfferig.

**Ffigur 3: Gwasanaethau ecosystem coetir yng Nghymru**



# 4. Cyd-destun polisi

## Y Strategaeth Coetiroedd i Gymru

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei strategaeth **Coetiroedd i Gymru** wedi'i diweddaru ym mis Mehefin 2018, sy'n nodi ei gweledigaeth ar gyfer coetiroedd dros y 50 mlynedd nesaf. Ers y fersiwn flaenorol yn 2009, bu newidiadau sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru a phasio **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**.

Y pedwar prif faes ar gyfer gweithredu yn y strategaeth wedi'i diweddaru yw:

- ymateb i newid hinsawdd;
- coetiroedd i bobl;
- sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig; ac
- ansawdd amgylcheddol.

Mae'r strategaeth yn nodi uchelgais i blannu o leiaf 2,000 hectar o goetir newydd bob blwyddyn rhwng 2020 a 2030 (yn ystod y degawd diwethaf - 2010 i 2020 - dim ond 430 hectar y flwyddyn yw'r gyfradd blannu ar gyfartaledd). Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru **leihau allyriadau 80%** o'r llinell sylfaen erbyn 2050. Mae'r targed hwn **wedi'i ddiwygio** yn ddiweddar ac erbyn hyn mae gan Gymru darged allyriadau sero net erbyn 2050.

Ymhlith blaenoriaethau eraill y strategaeth mae:

- gwella cydnerthedd ecosystemau coetiroedd;
- creu seilwaith gwyrdd newydd mewn ardaloedd trefol;
- gwella mynediad i goetiroedd a chynyddu coetiroedd yn agos at drefi a dinasoedd; a
- chefnogi diwydiannau ffyniannus sy'n seiliedig ar goetiroedd.

## Cynllun cyflawni carbon isel

Yn '**Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel**', nododd Llywodraeth Cymru 100 o bolisïau a chynigion i leihau allyriadau carbon a helpu i gyflawni ei chyllidebau carbon statudol.

Mae pedwar polisi a dau gynnig yn ymwneud â choetiroedd:

- Polisi 62 – Gweithredu ein Polisi ar Adnoddau Naturiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod rhagor o ganopi coed a chreu coetiroedd sy'n agos i drefi a dinasoedd;
- Polisi 63 – Strategaeth Coetiroedd i Gymru;
- Polisi 64 – Sicrhau bod trwyddedau cwympo yn mynnu bod coed newydd yn cael eu plannu lle mae coed wedi cael eu cwympo;
- Polisi 65 – Cynyddu maint ystad coetir Llywodraeth Cymru;
- Cynnig 19 – Cynyddu nifer y coed a blennir i 2,000 hectar y flwyddyn, gyda'r nod o gynyddu hyn i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted ag y bo modd;
- Cynnig 20 – Nodi ardaloedd a ffefrir ar gyfer plannu coed. Diweddaru'r map cyfleoedd coetiroedd i berchnogion tir ei ddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei hail gynllun cyflawni carbon isel ar ddiwedd 2021.

## Coedwig Genedlaethol

Codwyd y syniad o Goedwig Genedlaethol yn y lle cyntaf gan Mark Drakeford, y Prif Weinidog, yn ei faniffesto ar gyfer arweinyddiaeth ei blaid yn 2018. Ei weledigaeth ar gyfer y goedwig, **a amlinellwyd ym mis Gorffennaf 2019**, yw ardal barhaus o goetir sy'n rhychwantu hyd a lled Cymru, fel y gallech gerdded yn barhaus o un rhan o Gymru i'r llall, bron, heb adael y goedwig genedlaethol. Y nod fyddai cyflymu'r gyfradd plannu coed yng Nghymru, gan greu coetir newydd yn ogystal â chynnal ac adfer safleoedd coetir presennol.

Ym mis Mawrth 2020, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad cadarn** i greu Coedwig Genedlaethol ar gyfer Cymru. Yn ei gyhoeddiad, pwysleisiodd y Prif Weinidog y gwasanaethau ecosystem y mae coetiroedd yn eu darparu:

> Mae coed yn gwella ansawdd aer; yn tynnu nwyon tŷ gwydr niweidiol o'r atmosffer; yn darparu deunyddiau naturiol ar gyfer adeiladu; yn adfer pridd ar gyfer tyfu bwyd; yn glanhau'r dŵr yn ein hafonydd; ac yn darparu cartrefi ar gyfer yr holl greaduriaid byw sy'n cysgodi yn eu canopi.

Amlinellodd y bydd y goedwig yn galw am "**weithredu ar y cyd**" i droi "uchelgais yn weithredu uniongyrchol a chydymrwymiad hirdymor". Yn y modd hwn, mae menter y Goedwig Genedlaethol yn cael ysbrydoliaeth gan ddatblygiad Llwybr

Arfordir Cymru, a ddatblygwyd trwy gydweithrediad rhwng y llywodraeth, busnesau a chymunedau lleol.

Yn ystod tymor yr hydref 2020, datgelodd Llywodraeth Cymru 1**4 safle cyntaf y Goedwig Genedlaethol**. Gyda'i gilydd, mae gan y safleoedd hyn arwynebedd dros 43,000 hectar ac maent yn cael eu rheoli a'u cynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae llawer ohonynt yn goedwigoedd cynhyrchiol, yn cynhyrchu pren cynaliadwy ac yn cefnogi cymunedau lleol. Mae gan eraill ganolfannau ymwelwyr, caffis a chyfleusterau ar gyfer gweithgareddau fel beicio mynydd. Mae'r holl safleoedd coedwig hyn yn bodloni Safon Coedwigaeth y DU a Safon Sicrhau Coetir y DU, ac fe'u hystyrir "**ymhlith y coetiroedd gorau yng Nghymru**".

Croesawodd Confor y Goedwig Genedlaethol fel '**newid byd**' i goedwigaeth, gan bwysleisio potensial y Goedwig Genedlaethol i ysgogi twf economaidd gwledig, creu swyddi a darparu ffrydiau refeniw amgen i ffermwyr. Dywedodd Confor hefyd:

> The industry is delighted that the Welsh Government has listened to industry concerns on previous Glastir schemes [...] More forestry creation through National Forest is a real positive – and we look forward to ensuring it provides a mix of forestry designed to be self-sustaining and produce multiple benefits.

Croesawodd Coed Cadw ymrwymiad y Llywodraeth ar gyfer y Goedwig Genedlaethol, gan **nodi'r** hyn a ganlyn:

> Planned and delivered well, this project could connect north to south, urban to rural and people to nature.

Pwysleisiodd yr elusen hefyd yn ei **maniffesto ar gyfer etholiadau Senedd Cymru yn 2021** fod angen adeiladu ar lwyddiannau a gyflawnwyd yn barod:

> Gwreiddiau cadarn i adeiladu ohonynt yw'r rhain, ond RHAID i ni wneud cymaint yn fwy i wireddu holl werth coed er lles cymunedau a busnesau ledled Cymru

Mae **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-2026** yn nodi y bydd yn:

- "Creu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o Ogledd Cymru i'r De"; a
- "Manteisio ar botensial economaidd, diwylliannol a hamdden y Goedwig Genedlaethol gan adeiladu ar ein cynnydd tuag at greu diwydiant coed cynaliadwy".

## Polisïau eraill

Roedd **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau 80 y cant o'r llinell sylfaen erbyn 2050. Fodd bynnag, ym mis Mai 2019, rhoddodd Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd gyngor i Lywodraeth Cymru fabwysiadu targed i leihau **95%** erbyn 2050. Ym mis Mehefin 2019, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Yn ôl **cyngor wedi'i ddiwygio gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2020**, argymhellwyd y dylai Cymru fod hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol, a gosod targed sero net erbyn 2050 ac ymdrechu i'w gyrraedd. Ym mis Chwefror 2021, gosododd Llywodraeth Cymru **bedair set o reoliadau**. Y rhain yw:

- diwygio targed allyriadau 2050 i sero net (yn unol â tharged statudol y DU gyfan ar gyfer allyriadau sero net);
- cynyddu'r targed ar gyfer 2030 i 63 y cant (o 45 y cant) a'r targed ar gyfer 2040 i 89 y cant (o 67 y cant);
- gosod y drydedd gyllideb garbon (2026-2030).

Ym mis Ionawr 2020 cyhoeddodd Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd **adroddiad** yn amlinellu'r newidiadau defnydd tir sy'n ofynnol i gyflawni'r targed newydd hwn. Ar gyfer Cymru, ei uchelgais yw plannu 152,000 hectar o goetir newydd erbyn 2050, ar gyfradd o dros 5,000 hectar y flwyddyn.

Mae cynllun **Plant!** Llywodraeth Cymru yn addo plannu coeden ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru ers 1 Ionawr 2008. Mae'r cynllun wedi creu tua 140 hectar o goetir newydd mewn 15 coedwig.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru hefyd **wedi nodi ei bwriad** i ddefnyddio mwy o bren a dyfir yng Nghymru mewn prosiectau adeiladu yng Nghymru, i gefnogi coedwigaeth fasnachol ac i leihau allyriadau carbon.

Lansiodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei ymgynghoriad ar **Gynllun Aer Glân i Gymru** ym mis Rhagfyr 2019. Trafododd blannu coed yn graff i wella ansawdd aer gan nodi:

> Gwyddys bod coetiroedd yn cyfrannu at wella ansawdd aer cyffredinol, nid yn unig mewn ardaloedd trefol ond yn yr amgylchedd gwledig ehangach hefyd, ond mae'r math anghywir o lystyfiant yn y lle anghywir (e.e. coed wedi'u gosod lle byddant yn atal llygredd rhag gwasgaru'n effeithiol) yn gallu gwneud pethau'n waeth ac, mewn rhai cyd-destunau, bydd gwrychoedd ymyl ffordd yn well na choed o safbwynt cysylltiad â llygredd aer.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mawrth 2020. Pwysleisiodd yr ymatebion bod angen gweithredu i leihau llygredd aer, ac ailddatganodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ehangu coetiroedd yng Nghymru. Cyhoeddwyd Papur Gwyn aer glân newydd **ym mis Ionawr** 2021 ac mae **Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026** Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gyflwyno Bil Aer Glân i Gymru yn ystod y Chweched Senedd.

## Ariannu coetiroedd

Prif fecanwaith cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer coedwigaeth fu'r cynllun creu coetir **Glastir**, a ariannwyd drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru 2014-2020. Mae hyn yn rhan o Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cynllun yn cynnig **grantiau** ar gyfer adfer, rheoli a chreu coetiroedd. O 2016-19, talwyd grantiau gwerth **£13.3 miliwn** i ffermwyr a rheolwyr tir ar draws y tair ffrwd hon.

Mae'r cynllun **adfer** yn cynorthwyo gydag ailstocio coetiroedd y rhoddir trwyddedau cwympo neu Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol iddynt. Mae'r cynllun **rheoli** yn caniatáu i berchnogion coetiroedd wneud cais am gyllid i wella bioamrywiaeth eu coetiroedd, gwella'r modd y caiff dŵr ei reoli a dal a storio carbon, neu gynyddu mynediad y cyhoedd i goetiroedd. Mae'r cynllun **creu** yn darparu cyllid ar gyfer gwaith plannu coetiroedd newydd.

Roedd **Rhaglen Fonitro a Gwerthuso Glastir** (GMEP) yn asesu llwyddiant y cynllun. Roedd **yr adroddiad GMEP olaf**, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017, yn dweud nid yw'n ymddangos bod yr 'arwynebedd bychan lle plannwyd coed o dan y cynllun':

> yn adlewyrchu'r targedau uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ehangu coetiroedd.

Nawr bod y DU wedi ymadael â'r UE a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, mae cynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn dod i ben, gan gynnwys Glastir. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun rheoli tir newydd, a chafodd y cynigion diweddaraf eu nodi mewn **Papur Gwyn ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Byddai'r polisi arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr am ddarparu 'nwyddau cyhoeddus' o'r tir, gan gynnwys deilliannau cymdeithasol ac amgylcheddol. Byddai'r cynllun newydd yn darparu taliadau i ffermwyr sy'n dewis sicrhau buddion cadarnhaol o blannu a rheoli coetir ar eu ffermydd. Mae'r Papur Gwyn yn tynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer coetiroedd nad ydynt ar ffermydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella'r rheoliadau a'r prosesau cyfredol sy'n effeithio ar y ffordd y mae coetiroedd yn cael eu creu a'u rheoli. Mae hyn yn cynnwys system gymeradwyo ar gyfer cynlluniau creu coetir sydd yn "**syml, hawdd ei rhagweld a chymesur**". Mae hefyd am ychwanegu amodau at drwyddedau ar gyfer cwympo coed a sicrhau bod dulliau atal effeithiol ar waith i atal cwympo coed yn anghyfreithlon.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddarparu **£2 filiwn** i'r **Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE**, a gynhelir rhwng 2018 a 2025. Ei nod yw dychwelyd coetiroedd hynafol yr Iwerydd yng Nghymru i statws cadwraeth ffafriol.

## Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd

Cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd adroddiad - **Heb Gyrraedd Gwreiddyn y Mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd** - ym mis Gorffennaf 2017 yn dilyn ei ymchwiliad i bolisi coetiroedd.

Roedd yr ymchwiliad yn tynnu sylw at y diffyg difrifol o greu coetir yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Canfuwyd bod hyn, yn bennaf, oherwydd rhwystrau rheoleiddiol, rhwystrau biwrocrataidd, rhwystrau ariannol a rhwystrau diwylliannol. Roed yn nodi hefyd y gallai diffyg cyllid ar gyfer rheoli coetir fod yn effeithio ar ansawdd amgylcheddol coetiroedd brodorol.

Gwnaeth yr adroddiad **13 o argymhellion** i Lywodraeth Cymru. Eu nod oedd gwella cyfraniad amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol coetiroedd Cymru. **Ymatebodd** Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd (y Gweinidog), i'r adroddiad ym mis Medi 2017. Derbyniodd 12 o'r 13 argymhelliad, er bod naw o'r rhain wedi'u derbyn mewn egwyddor yn unig. Gwrthododd un ohonynt.

Roedd un o'r argymhellion a dderbyniwyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei Strategaeth Coetiroedd i Gymru. Cyhoeddwyd y **strategaeth ddiwygiedig** ym mis Mehefin 2018 (gweler isod).

# 5. Ffynonellau allweddol

**Deddfwriaeth**

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

**Llywodraeth Cymru**

- **Y Strategaeth Coetiroedd i Gymru**
- **Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2017-2018**
- **Ffeithiau a Ffigurau Ffermio Cymru, 2020**
- **Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel**
- **Papur Gwyn ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)**

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

- **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016**
- **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020**
- **Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru**
- **Diben a rôl Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru**

**Forest Research**

- **Ystadegau Coedwigaeth 2020**
- **Tree cover outside woodland in Great Britain**
- **Prisio Adnoddau Coedwigoedd Cymru**

**Arall**

- **Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd** – Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig — Senedd Cymru
- **Sefyllfa Byd Natur 2019** – Partneriaeth Cyflwr Byd Natur
- **Land Use: Policies for a Net Zero UK** – The Committee on Climate Change